Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 05.04.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# YNNI: Cynllun Gostyngiad mewn Biliau Ynni

Bydd y Cynllun Gostyngiad mewn Biliau Ynni (EBDS) i gwsmeriaid annomestig ar gael am 12 mis o 1 Ebrill 2023 hyd 31 Mawrth 2024, ac yn disodli'r Cynllun Rhyddhad ar Filiau Ynni a oedd yn cefnogi busnesau a sefydliadau rhwng 1 Hydref 2022 a 31 Mawrth 2023. Mae gwybodaeth am sut fydd y cynllun yn gweithio ar gael ar:

https://www.gov.uk/guidance/energy-bills-discount-scheme

Mae Busnes Cymru, Cyngor Busnes Gogledd Cymru, Uchelgais Gogledd Cymru, mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, wedi crynhoi rhai atebion effeithlonrwydd ynni ‘cost isel a dim cost’, i helpu busnesau ac unigolion i liniaru yn erbyn costau ynni cynyddol eleni. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3GlCIjg

## EIDDO: Rhestr Ardrethi Annomestig 2023 bellach yn fyw

Mae’r rhestr ardrethi annomestig ac ystadegau swyddogol wedi’u cyhoeddi gan Lywodraeth y DU ar gyfer ailbrisiad 2023. Mae’r rhestr ardrethu yn nodi’r holl werthoedd ardrethol ar gyfer eiddo annomestig yng Nghymru a Lloegr ac fe’i defnyddir gan awdurdodau lleol i helpu i bennu ardrethi busnes. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/government/news/2023-rating-list-is-now-live.cy

## TWRISTIAETH: Helpu’r GIG yng Ngogledd Cymru drwy annog ymwelwyr i ddefnyddio’r gwasanaeth iechyd cywir | Annog parcio cyfrifol

- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi creu pecyn cymorth o adnoddau cyfathrebu ar gyfer darparwyr llety a busnesau twristiaeth er mwyn helpu i gyfeirio ymwelwyr sy’n mynd yn sâl neu sy’n cael damwain at y gwasanaeth iechyd lleol cywir. I lawrlwytho y pecyn cymorth, ewch i: https://bit.ly/3Kzi0i8

- Gyda thymor y gwyliau ar y gorwel, mae'r awdurdodau yng Ngwynedd yn annog pawb sy'n bwriadu ymweld ag atyniadau poblogaidd y sir i gynllunio o flaen llaw. I ddarllen y datganiad i'r wasg, ewch i: https://bit.ly/DatganiadGwynedd31Maw2023

## IECHYD A DIOGELWCH: Diweddariadau yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch (HSE)

Mae'r diweddariadau canlynol wedi eu cyhoeddi gan yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch (HSE).

- Canllaw cam wrth gam sylfaenol ar gymorth cyntaf yn y gwaith: https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/firstaid/index.htm

- Rheoli'r risgiau ac atal syndrom dirgrynu braich law (a achosir drwy ddefnyddio offer pŵer a ddelir â llaw ar gyfer cyfnodau hir o amser): https://www.hse.gov.uk/vibration/hav/index.htm

- Amddiffyn gweithwyr rhag trais ac ymddygiad ymosodol yn y gwaith: https://www.hse.gov.uk/violence/index.htm

## CYLLID: Grantiau Smart Innovate UK

Mae Innovate UK, sy'n rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU, yn buddsoddi hyd at £25 miliwn yn y syniadau arloesol gorau a mwyaf blaenllaw, a gynlluniwyd ar gyfer masnacheiddio cyflym, llwyddiannus. Gall ceisiadau ddod o unrhyw faes technoleg a chael eu cymhwyso i unrhyw ran o'r economi, fel, ond heb fod yn gyfyngedig i sero net, y celfyddydau, dylunio a'r cyfryngau. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3m0VntO

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru